


POLISI GWAITH CARTREF

Homework Policy

Ysgol Godre'r Berwyn



Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: _____

Signed on behalf of the Chair of Governors:

Dyddiad Cymeradwyo:

Date of approval

Dyddiad Adolygu:

Review date:

Nod

Defnyddio'r amser sydd ar gael adref i ddatblygu eu sgiliau a goresgyn unrhyw anawsterau er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a'r addysgu.

Amcanion

1. Datblygu cyfrifoldeb, dyfal-barhad a gallu dysgwyr i fod yn hunan-ddisgybledig.
2. Sicrhau amser i ymarfer sgiliau sydd wedi eu dysgu yn y dosbarth.
3. Rhoi cyfle i rieni (ac oedolion eraill) fod yn rhan o waith y plant.
4. Gweithredu'r Cynllun Darllen Gartref.
5. Hyrwyddo a datblygu amcanion yr ysgol drwy gydweithrediad a chefnogaeth rhieni a gwarchodwyr.

Canllawiau

1. Sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad y cartref i hybu gwaith y plant – gweler y Polisi Cytundeb Cartref Ysgol.
2. Gellir gosod gwaith na chafodd ei gyflawni mewn amser rhesymol yn yr ysgol fel gwaith i'w orffen gartref.
3. Gosod gwaith ychwanegol i ddileu gwendid neu i ganolbwyntio ar agwedd arbennig o waith.
4. Ambell dro bydd gweithgarwch yn gofyn am ymchwilio a gwybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.
5. Ni fydd gwaith cartref yn cael ei amserlennu ac ni osodir terfynau amser wythnosol gan y gall amrywio yn arw o bryd i'w gilydd ac o blentyn i blentyn.
6. Disgwylir i blant y Cyfnod Sylfaen gymryd rhan yn y Cynllun Darllen Gartref. Weithiau bydd yr athrawes yn trafod gyda'r rheini yr angen i ddatblygu sgiliau penodol e.e. dweud llythyren yn gywir e.e. 'll' nid 'ch' yn 'llaw', gwisgo'n annibynnol a.y.y.b. fel bo'r angen.
7. Mae'r Cynllun Darllen Gartref yn rhan o'r gwaith cartref drwy'r ysgol a cheisir cydweithrediad rhieni trwy eu hannog i arwyddo'r llyfr cofnodi yn wythnosol.
8. Gellir cyflwyno gwybodaeth i rieni am safweoedd defnyddiol a datblygiadau yn y maes gan eu hatgoffa am yr angen i sicrhau diogelwch y plant.
9. Dylid cyflwyno'r gwaith cartref yn ôl i'r athro ddosbarth erbyn y dyddiad a bennwyd iddo.

Casgliad

Bydd llwyddiant y cynllun gwaith cartref yn ddibynnol ar gyd-weithrediad effeithlon ysgol/cartref. Mae gwaith cartref yn ffynhonnell annatod i ddatblygiad academaidd a hunan-ddisgyblaeth pob plentyn.

Goal

Using the time available at home to develop pupils' skills in order to overcome any difficulties and reinforce teaching and learning.

Objectives

1. Develop responsibility, persistence and learners' ability to be self-disciplined.
2. Ensure time to practice skills that have been learned in class.
3. Giving parents and guardians the opportunity to be part of the children's work.
4. Implement the Home Reading Plan.
5. Promote and develop the school's objectives through the cooperation and support of parents and carers.

Guidelines

1. Ensure the support and cooperation of the home to promote the children's work - see the Home School Agreement Policy.
2. Work that was not completed in a reasonable time at school can be set as work to be completed at home.
3. Set additional work to eliminate a weakness or to focus on a particular aspect of work.
4. Occasionally an activity will require research and information from parents, relatives and neighbours, or require inquiry and discovery work on behalf of the children. It is realized that the child is the responsibility of the home during these hours and that it is in the light of that responsibility that parents will agree or disagree to cooperate.
5. Homework will not be scheduled and weekly deadlines will not be set as it can vary greatly from time to time and from child to child.
6. Foundation Phase children are expected to take part in the Home Reading Scheme. Sometimes the teacher will discuss with those the need to develop specific skills e.g. say a letter correctly e.g. 'll' not 'ch' in 'hand', dress independently etc. as needed.
7. The Home Reading Plan is part of the homework throughout the school and parents' cooperation is sought by encouraging them to sign the record book weekly.
8. Information can be presented to parents about useful websites and developments in the field, reminding them of the need to ensure the children's safety.
9. The homework should be submitted back to the class teacher by the set date.

Conclusion

The success of the homework plan will be dependent on efficient school/home co-operation. Homework is an integral source of every child's academic development and self-discipline.